# Swydd Ddisgrifiad

Wales GWCT Cymru
FOLLOW THE SCIENCE
DILYNWCH Y GWYDDONIAETH

## Manylion y swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd**: | Swyddog Masnachol ac Ymgysylltu GWCT Cymru / Wales |
| **Math o benodiad**: | 12 mis tymor penodol |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cymru |
| **Lleoliad**: | Gweithio gartref, yng Nghymru |
| **Oriau gwaith**: | Opsiwn ar gyfer gweithio llawn neu ran amser: 3 - 4 diwrnod yr wythnos |
| **Cyflog**: | £26-30k pro rata (yn unol â phrofiad) |

## Pwrpas y Swydd

Gweithio o fewn tîm deinamig GWCT Cymru er mwyn ehangu ar ein gwaith a chwilio am nawdd corfforaethol i gefnogi ein prosiectau gwyddonol gwerthfawr.

Byddai'r rôl hefyd yn cynnwys datblygu perthnasoedd gydag amrywiol bartneriaid a sefydliadau masnachol. Fel rhan o hyn, byddai'n golygu trefnu digwyddiadau gyda'r partneriaid amrywiol i wella proffil GWCT Cymru / Wales yng Nghymru a chodi cefnogaeth i'n prosiectau.

Fel rhan o'r rôl hon bydd cyfryngau cymdeithasol a chysylltu â phartneriaid yn allweddol, felly byddai cefndir i gefnogi hyn yn fanteisiol.

## Partneriaethau

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio â phartneriaid allweddol i gynnwys:

- Gwyddonwyr GWCT
- Partneriaid Masnachol
- Lleoliadau digwyddiadau
- Llywodraeth Cymru
- CNC
- Ffermwyr, tir feddianwyr, ciperiaid, rheolwyr tir
- NFU, UAC, a sefydliadau â ffocws ffermio.
- Awdurdodau Lleol
- Elusennau Cadwraethol Eraill

# Swydd Ddisgrifiad

## Ein gweledigaeth

Ymgysylltu â phartneriaid masnachol i gael cefnogaeth i'n gwaith yng Nghymru, bydd hyn yn golygu sicrhau ein bod yn cysylltu ein hunain â sefydliadau ag enw da sy'n credu'n wirioneddol yn ein gwaith.

Byddwch yn rhyngweithio ac yn cyfathrebu'n effeithiol â phobl o bob cefndir, o blant ysgol i wleidyddion. Bod yn chwaraewr tîm; yn hygyrch, hyblyg, diddorol, brwdfrydig a chroesawgar i bawb. Bydd disgwyl i chi gyflwyno negeseuon wedi'u halinio'n dda gan gynnwys deunydd ymchwil a pholisi, gyda hyder a hygrededd i ystod o gynulleidfaoedd.

I gysylltu ag aelodau GWCT yng Nghymru a rhoddwyr blaenorol – dod o hyd i roddwyr newydd.

## Gyda phwy fyddwch chi'n gweithio?

- Tîm GWCT Cymru
- Staff a myfyrwyr GWCT tu hwnt i Gymru
- Partneriaid masnachol
- Trefnwyr digwyddiadau
- Ffermwyr, tirfeddianwyr, ciperiaid a rheolwr tir
- Contractwyr a gwirfoddolwyr
- Cyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldeb cenedlaethol am weithgareddau sy'n cymryd rhan yng Nghymru neu sydd ynghlwm â Chymru.
- Ymddiriedolwyr
- Aelodau pwyllgorau ac aelodau GWCT yn gyffredinol
- Y cyhoedd yn ehangach

## Cyfrifoldebau ac atebolrwydd allweddol

| | |
|---|---|
| 1 | Hwyluso perthnasoedd masnachol a phartneriaeth ar sail ddyddiol. |
| 2 | Cefnogi a datblygu uchelgeisiau nawdd masnachol GWCT Cymru. |
| 3 | Helpu i gefnogi prosiectau ledled Cymru. |
| 4 | Nodi cyfleoedd prosiect, datblygu prosiectau newydd, a chwilio am gyllid a sicrhau cyllid i'w ddatblygu yng Nghymru er mwyn cynhyrchu incwm a chefnogi amcanion elusennol GWCT. |
| 5 | Cynrychioli GWCT Cymru mewn fforymau priodol; Gweithio gydag eraill yn ôl yr angen. |
| 6 | Datblygu cyfryngau a chyfathrebu'r gwaith rydych chi a'r Ymddiriedolaeth ehangach yn ei wneud. |
| 7 | Helpu i ddatblygu tudalen gwefan GWCT Cymru 'Cymuned Ffermio'. |
| 8 | Sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau allanol o fentrau amaethyddol, academaidd a masnachol, i gynyddu presenoldeb GWCT yng Nghymru a gweithio ar y cyd. |
| 9 | Cynghori a dilyn cynllun ffermio newydd Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS – Sustainable Farming Scheme) |

| | |
|---|---|
| 10 | Helpu aelodau eraill o'r tîm yng Nghymru gydag ymchwil, prosiectau, digwyddiadau ac ymgysylltu yn ôl yr angen. |

## Manyleb Person

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gradd mewn pwnc perthnasol a/neu brofiad cysylltiedig â gwaith. | Hanfodol |
| 2 | Profiad o ymgysylltu masnachol, hwyluso prosiectau a chymhwysedd ariannol. | Hanfodol |
| 3 | Profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyflwyno a rhwydweithio a dylanwadu. | Dymunol |
| 4 | Sgiliau cyfathrebu, siarad cyhoeddus a rhwydweithio rhagorol, sy'n gallu negodi, perswadio a dylanwadu ar ystod eang o rhanddeiliaid. | Hanfodol |
| 5 | Dealltwriaeth dda o arferion a gweithdrefnau gwyddonol/ymchwil. | Dymunol |
| 6 | Dealltwriaeth dda o arferion a gweithdrefnau ffermio modern Cymru. | Dymunol |
| 7 | Dealltwriaeth dda o sut mae rheoli helgig yn cael eu hintegreiddio i dir fferm a rhedeg 'shoot' a physgota. | Dymunol |
| 8 | Profiad o ymgysylltu â'r gymuned a gweithio gydag amrywiaeth eang o grwpiau. | Dymunol |
| 9 | Yn gallu gweithio'n annibynnol, blaenoriaethu llwyth gwaith a chwrdd â therfynau amser. | Hanfodol |
| 10 | Profiad o fodloni safonau rheoleiddiol er enghraifft mewn perthynas â GDPR ac Iechyd a Diogelwch. | Hanfodol |
| 11 | Lefel uchel o gymhwysedd TG gan gynnwys Microsoft Office Outlook, Word, Excel, Sharepoint a Powerpoint | Hanfodol |
| 12 | Trwydded yrru a phasbort llawn y DU (a'r defnydd o'ch cerbyd eich hun) | Hanfodol |
| 13 | Siaradwr Cymraeg rhugl. | Dymunol |